



Briffiad gan Gomisiynydd Plant Cymru: Ionawr 2018

Cynnig Deddfwriaethol ar gyfer dileu amddiffyniad “cosb resymol”

Ar 27 Mehefin 2017, ailadroddodd Prif Weinidog Cymru fwriad Llywodraeth Cymru i geisio cefnogaeth ar draws y pleidiau i ddeddfwriaeth a fyddai'n dileu amddiffyniad cosb resymol, fel rhan o'i ddatganiad ar flaenoriaethau deddfwriaethol y llywodraeth ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Yr ymgynghoriad a lansiwyd yn awr ym mis Ionawr 2018 yw'r cynnig deddfwriaethol ar gyfer dileu'r amddiffyniad hwn, ac mae'n gyfle i ddylanwadu ar y ddeddfwriaeth honno wrth iddi ddatblygu.

Y nod polisi a roddwyd ar gyfer y cynnig yw cynnal hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol. Mae hyn i gael ei gyflawni trwy ddileu amddiffyniad cosb resymol, mewn perthynas â chyhuddiad o ymosodiad cyffredin yn y llysoedd troseddol.

Byddai dileu'r amddiffyniad hwn yn golygu y byddai gan blant yng Nghymru yr un amddiffyniad yn erbyn ymosodiad cyffredin o dan y gyfraith ag sydd gan oedolion. Bydd hefyd yn sicrhau bod Cymru'n cydymffurfio'n llawn ag Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sy'n gofyn bod y Wladwriaeth yn cymryd pob cam angenrheidiol a phriodol i ddiogelu plant.

Mae llawer o gamwybodaeth wedi cael ei chyflwyno yn ystod trafodaethau blaenorol ar y pwnc hwn, ond dyma ffeithiau'r cynnig:

- Nid yw'n creu tramgwyddau troseddol newydd;
- Ni fydd plismona newydd unigol ar deuluoedd na newidiadau i drothwyon ymyrraeth y gwasanaethau cymdeithasol;
- Nid yw'r newidiadau'n ceisio troseddoli rhieni;
- Ni fydd yn effeithio ar weithredoedd arferol rhianta sy'n cynnwys cyswllt corfforol, megis glanhau dannedd neu frwsio gwallt, neu dynnu plentyn o berygl car neu le tân;
- Bydd plant yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion, a bydd eu hawliau o dan CCUHP yn cael eu cynnal.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n esbonio'n ofalus ac yn fanwl dystiolaeth yr ymchwil ar effeithiau negyddol smacio ac effaith gadarnhaol dulliau awdurdodol o fagu plant sydd ddim yn cynnwys cosb gorfforol. Dylai roi tawelwch meddwl i unrhyw un a allai fod yn pryderu ynghylch goblygiadau newid yn y gyfraith, a'u sicrhau bod cyfiawnhad i'r cynnig hwn a'i fod yn gymesur.

Er na ellir dweud na fydd unrhyw riant byth yn cael ei erlyn am ymosod ar ei blentyn, codi ofn yw honni y bydd nifer fawr o rieni'n wynebu erlyniad o ganlyniad i'r cynnig hwn. Ni welwyd yr effaith honno mewn unrhyw un o'r 53 gwlad lle mae cyfraith debyg wedi dod i rym – gan gynnwys gwledydd tebyg i'n gwlad ni, fel Seland Newydd ac Iwerddon. Ni fydd erlyniad yn digwydd oni bai bod hynny er lles pennaf y plentyn a budd y cyhoedd, a bod y trothwyon



wedi'u cyrraedd o ran tystiolaeth, fel sydd eisoes yn wir yn achos hyn a phob tramgwydd droseddol arall.

Yn hytrach, bydd dileu amddiffyniad "cosb resymol" yn cyflymu newid diwylliant sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru. Mae llai o rieni nag erioed yn smacio eu plant heddiw. Mae newidiadau yn y gyfraith wedi arwain at newid diwylliant mawr arall yng Nghymru, o wneud yfed a gyrru a pheidio â gwisgo gwregys yn y car yn annerbyniol, i ddatblygu agweddau llawer mwy cadarnhaol at berthnasoedd gyda phobl o'r un rhyw. Byddai'r cynnig hwn yn efelychu'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2015 ac yn cynnal hawliau plant yma yng Nghymru. Mae Bil Aelodau Preifat sy'n cael ei chyflwyno yn yr Alban ar y pwnc hwn hefyd.

Isod rwyf wedi cyflwyno rhai cwestiynau cyffredin, gyda'r nod o ymdrin â rhai o'r cwestiynau neu'r camagraffiadau sy'n aml yn cael eu codi yng nghyswllt y pwnc hwn. Nod y briffiad hwn yw darparu gwybodaeth glir a ffeithiau, yn annibynnol ar gynigion Llywodraeth Cymru, er mwyn llywio a chyfrannu at y drafodaeth sy'n mynd rhagddi, a fydd yn penderfynu ar ffurf y newid deddfwriaethol hwn.

Rwy'n edrych ymlaen at ymgysylltu â chi ar hyd y broses o ddatblygu'r cynigion hyn.

Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru



Cynnwys

1. Pam mae amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu yng Nghymru?	4
2. Beth mae'r gyfraith bresennol yn dweud?	5
3. Petai amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu yng Nghymru, ar bwy byddai hynny'n effeithio?5	
4. Os caiff amddiffyniad cosb resymol ei ddileu, fydd hynny'n golygu bod rhieni'n cael eu herlyn neu eu 'troseddoli'?	6
5. Fydd y newid hwn yn y gyfraith yn atal rhiant rhag amddiffyn plentyn, er enghraifft, atal plentyn rhag camu allan i'r ffordd?.....	7
6. Beth am hawliau rhieni?	8
7. Beth fydd effaith y newid yn y gyfraith ar wasanaethau cyhoeddus?	9
8. Beth yw'r dewisiadau eraill pan fydd plentyn yn gwrthod gwranddo?	10
9. Beth ddylwn i wneud os bydd gen i ragor o gwestiynau am y pwnc hwn?	10



CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. Pam mae amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu yng Nghymru?

Fe wnaeth Llafur Cymru a Plaid Cymru, fel ei gilydd, gynnwys deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn eu manifesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Y cynnig hwn yw'r cam cyntaf o ran symud yr ymrwymiad hwnnw yn ei flaen.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng dileu'r amddiffyniad hwn yn y gyfraith droseddol a hawliau plant o dan CCUHP. Yng Nghymru, mae sylw dyledus i hawliau plant wedi cael ei wneud yn rhan uniongyrchol o'r gyfraith trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Ond mae angen mwy na geiriau i wneud ymrwymiad i hawliau plant; mae'n ofynnol bod y wladwriaeth yn gweithredu i amddiffyn hawliau plant, ac mae'r cynnig hwn yn enghraifft glir o hynny. Ar hyn o bryd o dan y gyfraith mae gan blant lai o amddiffyniad nag oedolion yn erbyn ymosodiad cyffredin, a hynny oherwydd bod yr amddiffyniad hwn yn bodoli. Mae hyn yn achos sylfaenol o dorri eu hawliau i gael triniaeth gyfartal a chael eu cadw'n ddiogel rhag niwed, a dyna pam mae bwriad i ddileu'r amddiffyniad. Bydd hynny'n gwneud pawb yng Nghymru, gan gynnwys plant, yn gyfartal o dan y gyfraith.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos nad yw cosb gorfforol yn effeithiol, ac y gallai niweidio plant; ac eto mae'n dal yn gyfreithlon. Mae dystiolaeth o nifer o astudiaethau, gan gynnwys astudiaethau hydredol, sy'n dangos bod cysylltiad rhwng defnyddio cosb gorfforol a chynnydd mewn ymddygiad ymosodol a gwrthgymdeithasol. Ceir dystiolaeth hefyd fod cysylltiad arwyddocaol rhwng cosbi plant yn gorfforol yn amlach dros gyfnod o flwyddyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mwy niferus yn ystod y flwyddyn ganlynol. Yn ôl adroddiadau, mae plant sy'n cael eu smacio'n aml yn fwy tebygol o ymddwyn yn anodd, gan gynnwys fod yn orfywiog ac yn heriol.¹

Mae cosb gorfforol eisoes wedi cael ei gwahardd o dan y gyfraith mewn lleoliadau megis ysgolion, ond mae'n dal ar gael i riant neu oedolyn sy'n gweithredu fel gofalwr neu warcheidwad "in loco parentis".

Mae agweddau at arferion magu plant wedi bod yn newid yng Nghymru dros y blynyddoedd. Yn 1998, credai 88% o'r oedolion a holwyd fod angen smacio plentyn drwg ambell waith; fodd bynnag, erbyn 2015, roedd y ffigur hwn wedi gostwng yn sylweddol i 24%. Bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn annog rhieni i ddefnyddio technegau rianta mwy cadarnhaol, y profwyd eu bod yn fwy effeithiol.

¹ Peidiwch ag oedi i gysylltu â ni am fwy o wybodaeth ar y dystiolaeth astudiaeth.



Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn wedi dod i'r casgliad, ar dri achlysur gwahanol yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gwledydd datganoledig yn torri hawliau plant trwy ganiatáu i amddiffyniad cosbedigaeth resymol barhau mewn grym. Bydd y cynnig deddfwriaethol hwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan gyfraith hawliau dynol ryngwladol.

2. Beth mae'r gyfraith bresennol yn dweud?

Mae smacio, hynny yw grym corfforol sy'n cael ei ddefnyddio yn y cysylltiad rhwng un unigolyn ac un arall, yn ymosodiad. Does dim ots ai plentyn neu oedolyn sy'n cael ei smacio, mae'n dal yn ymosodiad a gallai arwain at erlyniad.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd gall rhieni neu'r rhai sy'n gweithredu 'in loco parentis' ddibynnu ar amddiffyniad o gosb resymol, yn erbyn cyhuddiad o ymosodiad cyffredin. Mae hynny'n golygu, petaent yn taro eu plentyn yng nghyd-destun "cosb", heb adael marc neu achosi anaf (neu bod dim anaf difrifol), byddai hawl ganddyn nhw i honni bod hynny'n "gosb resymol". Petai'r amddiffyniad hwnnw'n cael ei dderbyn, ni fyddent yn wynebu euogfarn am y drosedd.

Beth bynnag fyddai'r achos, byddai angen dyfarniad goddrychol; nid oes 'rhestr' gytunedig o gamau a fyddai'n cael eu hystyried yn "rhesymol" neu beidio. Mae hynny'n creu amwysedd yn y gyfraith, gan nad yw'n eglur ar unwaith beth fyddai'n "rhesymol" o dan unrhyw amgylchiadau penodol. Byddai dileu'r amddiffyniad yn creu mwy o eglurder i weithwyr proffesiynol ac i rieni, gan na fyddai bellach yn dderbyniol taro plentyn o dan unrhyw amgylchiadau.

Nid oes amddiffyniad cyfreithiol cyfatebol am daro oedolyn. Yr unig ddau amddiffyniad sydd ar gael yn wyneb cyhuddiad o ymosodiad cyffredin am daro oedolyn yw cydsyniad neu hunan-amddiffyniad. Ni fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar yr amddiffyniadau hynny.

Mae amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol mewn achosion ymosodiad cyffredin yn y llysoedd troseddol yn unig; nid yw'n berthnasol i achosion gwasanaethau cymdeithasol neu lysoedd teulu.

3. Petai amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu yng Nghymru, ar bwyllydd hynny'n effeithio?

Byddai holl blant Cymru yn cael eu hamddiffyn o dan y gyfraith rhag cosb gorfforol ym mhob amgylchiadau. Byddai hynny hefyd yn berthnasol i unrhyw blentyn ar ymweliad â Chymru.



4. Os caiff amddiffyniad cosb resymol ei ddileu, fydd hynny'n golygu bod rhieni'n cael eu herlyn neu eu 'troseddoli'?

Nid yw amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol ond yn wyneb cyhuddiad o ymosodiad cyffredin. Y cyfan mae'r cynnig hwn yn ei wneud yw dileu'r amddiffyniad hwnnw; **nid oes tramgwydd droseddol newydd yn cael ei chreu**. O'r herwydd, ni fydd meini prawf yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer ymchwilio i achosion o gosb gorfforol a gwneud penderfyniadau cyhuddo yn eu cylch yn newid.

Mae Côt Erlynwyr y Goron yn datgan na ellir penderfynu erlyn unrhyw fath o achos ond ar ôl bodloni prawf dau gam; i) cam y dystiolaeth a ii) budd y cyhoedd. Mae'r prawf o ran tystiolaeth yn gofyn bod erlynwyr wedi'u bodloni bod digon o dystiolaeth i sicrhau "posibilrwydd realistig o sicrhau euogfarn" yn erbyn pawb sydd dan amheuaeth yn achos pob cyhuddiad. Ni chaiff achos sydd heb fodloni'r cam tystiolaeth symud ymlaen, pa mor ddifrifol neu sensitif bynnag ydyw.

Ym mhob achos lle mae tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau erlyniad, rhaid i'r erlynwyr benderfynu wedyn a oes angen erlyn neu beidio o safbwynt budd y cyhoedd, sy'n cynnwys lles pennaf y plentyn ei hun. Mewn rhai achosion efallai bydd yr erlynydd wedi'i fodloni bod modd gofalu am fudd y cyhoedd yn briodol trwy roi cyfle i'r troseddwr sicrhau bod y mater yn derbyn sylw gan drefniant y tu allan i'r llys yn hytrach na thrwy erlyniad. Mae'r ail gam hwn hefyd yn gofyn bod erlynwyr yn ystyried a fyddai penderfyniad i gyflwyno cyhuddiad yn gymesur. Ni fydd y prawf dau gam yn cael ei newid o dan y cynigion hyn, a bydd lles pennaf y plentyn yn dal yn ystyriaeth hollbwysig wrth gymhwyso'r prawf, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Plant 1989 a CCUHP.

Mae 53 o wledydd ar draws y byd eisoes wedi gwahardd cosb gorfforol ac ni fu tystiolaeth o gynnydd yn nifer y rhieni sy'n cael eu herlyn yn y gwledydd hynny wedi i'r gyfraith newid.



5. Fydd y newid hwn yn y gyfraith yn atal rhiant rhag amddiffyn plentyn, er enghraifft, atal plentyn rhag camu allan i'r ffordd?

Cyflawnir trosedd Ymosodiad Cyffredin pan fydd person naill ai'n ymosod ar berson arall neu'n ei guro. (Rhoddir curfa pan fydd person yn fwriadol ac yn ddiofal yn defnyddio grym anghyfreithlon yn erbyn rhywun arall).

Mae'r term "grym anghyfreithlon" yn bwysig yma. Defnyddir grym yn fwriadol, ac mae'n galw am weithredu uniongyrchol. Nid yw atal plentyn rhag wynebu perygl, er enghraifft camu i ffordd brysur neu gyffwrdd â rhywbeth poeth, yn galw am ddefnyddio grym, ac mae'n fath cwbl wahanol o weithred. Nid yw'r gweithredoedd hynny, felly, yn dod o dan y diffiniad o ymosodiad, ac ni fu hynny erioed yn wir. Fodd bynnag, gellir dosbarthu smacio plentyn yn fwriadol fel ymosodiad os defnyddir grym anghyfreithlon wrth wneud hynny.

Mae'r heddlu, erlynwyr, cyfreithwyr troseddol, barnwyr a gweithwyr cymdeithasol yn dibynnu ar egwyddorion sefydledig a chyfraith achosion sy'n cydnabod y gwahaniaeth hwn, a byddent yn cymhwyso'r egwyddorion hyn yn rheolaidd i amgylchiadau pob achos neu sefyllfa dan sylw. Ni fydd union ddiffiniad ymosodiad yn cael ei newid gan y cynigion hyn, felly ni fydd yn cael ei ehangu i gynnwys unrhyw beth nad yw eisoes yn cael ei ystyried yn ymosodiad.

Fel Comisiynydd Plant Cymru, fy rôl statudol i yw sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu a'u hybu, ac felly rwyf fi am sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael eu cadw'n ddiogel. Dyna union ddiben gweithredoedd fel atal plentyn rhag mynd i berygl, ac ni fyddent yn dod o dan y diffiniad o ymosodiad cyffredin.



6. Beth am hawliau rhieni?

Mae holl blant Cymru yn cael eu hamddiffyn gan ddarpariaethau CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dileu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac yn gallu gwireddu eu potensial yn llawn.

Mae'r hawliau a geir o dan CCUHP yn rhai "absoliwt" neu'n "hawliau diamod" sy'n golygu eu bod yn berthnasol i bob plentyn o dan 18 oed, beth bynnag yw eu hamgylchiadau, ac na ellir eu diystyru.

Yn y Deyrnas Unedig mae hawliau hefyd sy'n berthnasol i bob person o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sy'n gwneud Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (ECHR) yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig. Nid yw Brexit yn effeithio ar ECHR, a bydd yn parhau mewn grym oni bai neu hyd nes bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae Erthygl 9 o ECHR yn rhoi hawl i bawb gael preifatrwydd a bywyd teuluol; ond mae'r hawl honno yn un a elwir yn "hawl amodol". Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn caniatáu i'r Wladwriaeth lunio cyfreithiau a *allai* ymyrryd â hawliau amodol, cyhyd â bod modd cyfiawnhau'r ymyrraeth honno mewn cymdeithas fodern, ddemocrataidd. Mae angen i unrhyw gynigion fod yn angenrheidiol ac yn gymesur a meddu ar nod cyfreithlon er mwyn eu cyfiawnhau. Y ddarpariaeth hon sy'n caniatáu i Lywodraethau lunio cyfreithiau yn gwahardd trais domestig, er enghraifft, ac yn darparu ar gyfer cymryd plant i ofal er mwyn eu hamddiffyn, os yw hynny er eu lles pennaf a bod y trothwyon perthnasol wedi'u cyrraedd. Yn dechnegol, mae hynny'n ymyrryd â hawliau Erthygl 8, ond cyfiawnheir hynny gan nod cyfreithlon amddiffyn y dioddefydd neu'r plentyn.

Er bod rhieni'n gallu dewis sut maent am fagu eu plant, ac y dylent fedru gwneud hynny, mae gan blant hefyd hawliau sylfaenol, diamod i gael eu hamddiffyn, a dyna pam mae bwriad i ddileu'r amddiffyniad hwn. Mae'n ymateb cymesur i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng hawliau pawb, gyda nod cyfreithlon, sef cadw plant yn ddiogel rhag niwed.

Mae'r cynnig yn rhan o becyn llawer ehangach o fesurau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi plant a'u rhieni. Bydd cymorth i rieni'n dal i gael ei ddarparu ar bob lefel, gan gynnwys yr ymgyrch rhianta cadarnhaol, ac yn cael ei gyflwyno gan bartneriaid ym meysydd llywodraeth leol, iechyd, addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a'r trydydd sector.

Mae'r gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb yn cynnwys rhai sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Meddygon Teulu, ymwelwyr iechyd a bydragedd. Ar ben hynny, bydd ymyriadau sydd wedi'u targedu'n fwy, megis Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, yn parhau i gynnig cefnogaeth a chyngor i rieni.



Mae'r cynigion yn cynnwys lleoliadau addysg heb eu rheoleiddio, fel Ysgolion Sul a madrasau, felly nid ar gyfer rhieni'n unig y maent wedi'u bwriadu.

7. Beth fydd effaith y newid yn y gyfraith ar wasanaethau cyhoeddus?

Mae'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes yn derbyn ac yn ymchwilio i adroddiadau ynghylch plant yn cael eu cosbi'n gorfforol, ac yn penderfynu arnynt fesul achos, gan edrych ar yr holl amgylchiadau a rhoi sylw i les pennaf y plentyn.

Ar hyn o bryd mae amddiffyniad cosb resymol yn gofyn bod yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dod i ddyfarniad goddrychol, trwy benderfynu beth sy'n "rhesymol" yn yr achos dan sylw. Byddai dileu'r amddiffyniad hwn yn golygu bod mwy o eglurder yn y gyfraith droseddol i rieni a gweithwyr proffesiynol. Mae dealltwriaeth glir nad yw'n dderbyniol taro oedolyn o dan unrhyw amgylchiadau, a dylai'r un peth fod yn wir yn achos plant.

Hyd yn oed pan fydd rhiant wedi taro plentyn, ni fyddai hynny'n golygu ei fod yn awtomatig yn wynebu cyhuddiad ac erlyniad; fel y nodwyd uchod mae nifer o ystyriaethau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Bydd asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gydweithio ac yn cyfeirio rhieni at y llwybr mwyaf priodol er mwyn sicrhau help a chefnogaeth gydag unrhyw heriau y gallant fod yn eu hwynebu.

Ni fydd cylch gorchwyl y gwasanaethau cymdeithasol yn newid o ganlyniad i'r cynigion hyn, na chwaith y trothwy ar gyfer cychwyn achos amddiffyn plant neu gymryd plentyn i ofal. Rhaid i blentyn fod mewn perygl o ddiodef, neu fod wedi dioddef *niwed sylweddol* o ganlyniad i weithredoedd y rhieni er mwyn mynd ymlaen i Weithdrefnau Amddiffyn Plant neu achosion gofal yn y llys teulu. Mae cyfoeth o gyfraith achosion ynghylch union ystyr 'sylweddol', ond mae'n rhaid iddo fod yn fwy na rhywbeth dibwys neu ddi-nod, gan roi sylw i unrhyw drama cysylltiedig a chanlyniadau emosiynol neu seicolegol posibl y niwed. Mewn unrhyw achos sy'n mynd i'r llys teulu, mater i'r barnwr fydd penderfynu a yw'r niwed yn sylweddol neu beidio. Penderfyniad gwahanol wedyn fydd a ddylid mynd â'r plentyn o ofal y rhieni; ni fydd hynny'n dilyn yn awtomatig.

O 6 Ebrill 2016, mae dyletswydd ar weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ("partneriaid perthnasol") i roi gwybod i'r awdurdod lleol os bydd ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn yn eu hardal yn wynebu perygl cam-drin neu esgeuluso, neu ag angen gofal a chymorth (Adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Mae dyletswydd debyg i roi gwybod am achosion lle'r amheuir bod perygl y gallai oedolion gael eu



cam-drin neu eu hesgeuluso, yn Adran 126. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymyrryd yn awtomatig. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried natur yr adroddiad a'r amgylchiadau, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac yn cymhwyso eu trothwyon arferol ar gyfer asesiadau a/neu gyfeirio ymlaen at wasanaethau cymorth priodol.

8. Beth yw'r dewisiadau eraill pan fydd plentyn yn gwrthod gwranddo?

Dywedir yn aml mai smacio plant ifanc yw'r unig ffordd i'w cael i wrando, gan nad oes modd rhesymoli eu hymddygiad na sicrhau eu bod yn deall mewn unrhyw ffordd arall. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd oedolion ag anawsterau dysgu difrifol neu oedolion sy'n dioddef o dementia yn gallu deall esboniad na chael trafodaeth resymol am eu hymddygiad chwaith. Mae'n gwbl annerbyniol yn gyfreithiol ac yn ddiwylliannol i smacio oedolyn o dan unrhyw amgylchiadau, ac mae hynny'n cynnwys oedolyn ag anawsterau dysgu neu dementia. Mae'n anodd, felly, cyfiawnhau smacio plentyn am yr un rhesymau, yn enwedig gan fod plant ifanc yn agored i niwed yn eu hanfod oherwydd eu maint corfforol a'u datblygiad a'u gallu cyfyngedig i fynegi eu barn eu hunain.

Bydd technegau a chefnogaeth Rhianta Cadarnhaol yn cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r cynnig deddfwriaethol hwn, gan y cydnabyddir bod angen ffiniau ar blant, ac y bydd rhieni o bosib am gael cyngor a chymorth ynghylch dewisiadau heblaw cosb gorfforol. Bernir bod y technegau hyn yn fwy effeithiol na smacio plentyn, yn ogystal â pheidio ag achosi niwed corfforol a/neu emosiynol. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys cwestiwn amdan gefnogaeth rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.

9. Beth ddylwn i wneud os bydd gen i ragor o gwestiynau am y pwnc hwn?

Mae'r cyfnod ymgynghori'n parhau tan 2 Ebrill 2018, felly mae amser i ymgysylltu â'r broses ymgynghori. Dyma'r cam cyntaf tuag at gyflwyno cynnig deddfwriaethol, felly bydd cyfleoedd eraill i ymgysylltu wrth i'r ddeddfwriaeth ddatblygu.

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi drafod y briffiad hwn yn fanylach, mae croeso i chi gysylltu â mi neu fy Mhennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Rachel Thomas. Mae Rachel yn gyfreithiwr cymwysedig sydd â phrofiad o gynrychioli rhieni a gwasanaethau plant awdurdod lleol mewn achosion gofal a rhai cyfreithiol preifat.

rachel.thomas@complantcymru.org.uk

01792 765600 / 07870 404651